# CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 23 Mai 2023 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Ellie Chard, Karen Edwards, Pauline Edwards, James Elson, Hugh Evans, Hugh Irving, Huw Hilditch-Roberts, Brian Jones, Paul Keddie, Terry Mendies, Merfyn Parry, Gareth Sandilands, Peter Scott, Andrea Tomlin, David Williams a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Llywodraethu a Busnes/Swyddog Monitro (GW), a’r Amgylchedd a’r Economi (TW); Pennaeth Cyllid ac Archwilio (SG); Pennaeth Dros Dro Adnoddau Dynol (LD); Rheolwr Cyllid Allanol (AS); Rheolwr Prosiect Corfforaethol (PC); Rheolwr Cefnogi Busnes (PB); Uwch Swyddog Refeniw (LG); Partner Busnes Adnoddau Dynol Arweiniol (AM); Rheolwr Caffael Cydweithredol a Fframwaith (KB); Rheolwr Rhaglen (KW) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ a NPH [Gweddarlledydd])

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriad.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2023.

***PENDERFYNWYD*** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.

## 5 CANLYNIAD ADOLYGIAD PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU O BENDERFYNIAD CABINET SY'N YMWNEUD Â'R CEISIADAU AR Y RHESTR FER AR GYFER CYLLID O'R GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN

Cyflwynodd y Cynghorydd Peter Scott, Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, yr adroddiad sy'n manylu ar ganfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu yn dilyn ystyried penderfyniad y Cabinet ar 25 Ebrill 2023 a alwyd i mewn. Roedd y penderfyniad yn ymwneud â cheisiadau a rhoddwyd ar y rhestr fer ar gyfer cyllid y Gronfa Ffyniant a Rennir.

Yn fras, cafodd y Pwyllgor eu sicrhau bod y broses a ddefnyddiwyd i ddelio gyda'r ceisiadau ac i lunio rhestr fer wedi bod yn un cadarn, teg a phroffesiynol. Fodd bynnag, credwyd bod trefniadau cyfathrebu agweddau ar gyllid y Gronfa Ffyniant a Rennir gydag aelodau etholedig wedi bod braidd yn wan. O ganlyniad, roedd y Pwyllgor wedi argymell bod y Cabinet yn cadarnhau ei benderfyniad i'r graddau y mae'n ymwneud â'r prosiectau sydd wedi'u rhoi ar y rhestr fer gan y Grŵp Partneriaethau Craidd i'w cymeradwyo, ac wrth wneud hynny yn cytuno ar fesurau pellach (fel y nodir ym mharagraffau 3.2-3.6 yr adroddiad) er mwyn cryfhau'r trefniadau cyfathrebu.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Scott am adrodd ar drafodaeth a'r argymhellion y Pwyllgor Craffu. Gan fod y Pwyllgor Craffu wedi cadarnhau penderfyniad y Cabinet, ac oherwydd hwyrni'r adroddiad ar yr argymhellion, gyda rhagor o ystyriaeth angen ei rhoi i'r dulliau gweithredu, cynigiodd yr Arweinydd ddiwygiad i'r argymhellion i adlewyrchu'r materion hynny a'r ffordd orau ymlaen. Cytunodd y Cabinet, gan amlygu'r angen am Gynllun Cyfathrebu cadarn ac ymgysylltu priodol. Gofynnodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts i'r Cabinet gytuno mewn egwyddor â'r argymhellion bras ac ar amserlen briodol i'w gweithredu. Cafodd sylwadau'r Cynghorydd eu cydnabod gan yr Arweinydd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) Cydnabod bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn parchu penderfyniad y Cabinet ar 25 Ebrill 2023, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r prosiectau ar y rhestr fer a luniwyd gan y Grŵp Partneriaethau Craidd i'w cymeradwyo, ac*

*(b) Mewn ymgynghoriad â'r swyddogion arweiniol perthnasol, yn ystyried y mecanwaith i weithredu argymhellion y Pwyllgor Craffu, fel y nodir ym mharagraffau 3.2-3.6, mewn modd amserol a phriodol.*

## 6 CAM 2 O GONTRACT GWAITH - GORSAF TROSGLWYDDO GWASTRAFF NEWYDD CSDD, YMESTYN STAD DDIWYDIANNOL COLOMENDY - DIWEDDARIAD

Cyflwynodd y Cynghorydd Mellor yr adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet i'r ffordd ymlaen arfaethedig i gwblhau gwaith Cam 2 Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff yn Ninbych, ar ôl i'r prif gontractwr (RL Davies & Son Ltd) fynd i ddwylo'r gweinyddwyr, a darparodd y wybodaeth ddiweddaraf ar y pwysau mae hynny'n ei rhoi ar y gyllideb.

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi a'r Rheolwr Prosiect Corfforaethol yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Atgoffwyd y Cabinet o'r cefndir a'r sefyllfa ddiweddaraf o ran gwaith Cam 2 a'r pedwar dewis i symud ymlaen. Argymhellir dewis 4 er mwyn i'r Cyngor barhau i fod yn gontractwr rheoli a fydd yn ffurfioli'r trefniadau sydd yn eu lle dan yr Adroddiad Eithrio sydd wedi galluogi parhau â'r gwaith ers diwedd mis Chwefror 2023. Soniwyd am y sefyllfa o ran y gyllideb a dywedwyd bod y trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru o ran a fyddant yn mynd i'r afael â'r pwysau diweddaraf ar y gyllideb o £890,987. Os nad yw'r llywodraeth yn gallu ariannu'r pwysau, bydd adroddiad ar y dewisiadau yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet.

Trafododd y Cabinet yr adroddiad gyda'r swyddogion a chadarnhawyd bod gorffen y gwaith yn hanfodol i weithredu'r newid i'r gwasanaeth. Roedd y prosiect gwastraff yn ei hanfod yn ymwneud â gwelliant amgylcheddol a chynyddu cyfraddau ailgylchu er mwyn cyrraedd targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% (mae'r llywodraeth hefyd wedi buddsoddi llawer yn y prosiect). Roedd y Cabinet yn croesawu buddion amgylcheddol y model gwastraff newydd a'r system newydd o wahanu ac ailgylchu, ac yn cydnabod cost cynyddol sylweddol parhau gyda'r trefniadau ailgylchu cymysg sy'n oddeutu £75 y dunnell ynghyd â'r ddirwy bosib' gan Lywodraeth Cymru os nad ydym yn cyrraedd y targedau ailgylchu. Mae yna hefyd berygl o'r llywodraeth yn adfachu'r arian os nad yw'r depo yn cael ei orffen a'r gwasanaeth newydd ddim yn dwyn ffrwyth. Wrth gydnabod cymhlethdod y prosiect diolchodd y Cabinet i'r swyddogion am eu gwaith gan obeithio y bydd y canlyniad yn un llwyddiannus ar ôl trafod y pwysau cyllidebol gyda Llywodraeth Cymru.

Agorodd yr Arweinydd y drafodaeth i'r aelodau etholedig eraill a oedd yn bresennol a bu iddynt ofyn cwestiynau a mynegi pryderon ynghylch y goblygiadau ariannol a'r pwysau cyllidebol, ynghyd â'r risgiau a'r dewisiadau i'r dyfodol. Ymatebodd y swyddogion fel a ganlyn –

- Cadarnhawyd cywirdeb yr amcangyfrif cyllidebol yn dilyn yr adolygiad diweddar o'r holl becynnau gwaith a'r arian at raid gan ddweud y bydd yna wastad berygl o'r anhysbys
- Mae'r pwysau cyllidebol wedi'i achosi gan y ffaith bod prif gontractwr y prosiect wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, rhywbeth y tu hwnt i reolaeth y Cyngor
- Darparwyd manylion y gwarantau a'r indemniadau proffesiynol sy'n ymwneud â'r prosiect
- Bydd risgiau'r prosiect yn mynd yn llai wrth i'r gwaith fynd rhagddo a thynnu tua'r terfyn
- Mae'r oedi o ran cael trwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru i weithredu o'r depo newydd yn dal yn risg, ond bydd yr aelodau yn cael gwybod am y cynnydd
- Mae trafodaethau yn parhau efo Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyllido'r pwysau cyllidebol ac os nad yw'r trafodaethau yn dwyn ffrwyth bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno ar y dewisiadau cyllido / yr effaith
- Rhoddwyd sicrwydd ynghylch rheolaeth y prosiect, y trefniadau llywodraethu a'r gwaith monitro risg, ac roedd y swyddogion yn hyderus y bydd y prosiect yn cael ei gyflawni
- Amlygwyd y cyfle i'r aelodau ymgysylltu ag agweddau craffu ar y newid yn y gwasanaeth a'r cynnydd yn ystod cyfarfodydd y pwyllgor craffu ym mis Mehefin

a mis Hydref, a chytunwyd i gynnwys y risgiau cysylltiedig â'r prosiect fel rhan o'r broses honno.

- Eglurwyd sut y cafodd y contract ei ddyfarnu i RLD drwy awdurdod wedi'i ddirprwyo oherwydd yr etholiadau lleol a'r amserlen ar gyfer dyfarnu'r contract.

Ar ddiwedd y drafodaeth ategodd y Cynghorydd Gill German y rheswm sylfaenol dros y model gwastraff newydd, sef i fynd i'r afael â phryderon amgylcheddol a'r her newid hinsawdd, ac roedd yna gefnogaeth eang i dargedau Llywodraeth Cymru yn hynny o beth. Cyfeiriodd y Cynghorydd Barry Mellor at Ddatganiad Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol y Cyngor yn 2019 a'r nodau y byddai'r prosiect gwastraff yn cyfrannu tuag atynt.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a)* *Cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau;*

*(b)* *C*efnogi'r ffordd ymlaen a ffefrir i gwblhau gwaith Cam 2 yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd ar Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych; ac yn

*(c)* *Cydnabod y pwysau diweddaraf ar y gyllideb a chytuno i barhau i weithio ar risg wrth i drafodaethau am ffynonellau cyllid posibl ar gyfer y pwysau gael eu cynnal â Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn angenrheidiol i liniaru'r perygl o oedi pellach a fyddai'n effeithio unwaith eto ar y costau a'r rhaglen, yn cynnwys y rhaglen ehangach o newid y gwasanaeth y mae cwblhau'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff yn hanfodol ar ei chyfer.*

Ar y pwynt hwn (11.10 am) cymerodd y pwyllgor egwyl am luniaeth.

## 7 PREMIWM TRETH Y CYNGOR AR GARTREFI GWAG HIRDYMOR AC AIL GARTREFI

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad ar y ddeddfwriaeth sydd wedi'i chyflwyno gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r uchafswm lefel o bremiymau treth y cyngor ar gyfer ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor a gofynnodd am farn y Cabinet ar sut i symud ymlaen gyda chyflyno unrhyw dâl ychwanegol posib' ar y cartrefi hyn yn Sir Ddinbych.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfres o fesurau i fynd i'r afael a diffyg tai fforddiadwy yng Nghymru, sy'n cynnwys hyblygrwydd newydd i godi cyfraddau uwch ar gyfer eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi (hyd at 300% o'r premiwm). Mae'r swyddogion yn argymell ymateb pwyllog i gadw'r premiwm ar 50% ar gyfer mis Ebrill 2023, ac yna cynyddu'r premiwm i 100% ym mis Ebrill 2024 ac i 150% ym mis Ebrill 2025. Bydd unrhyw gynnydd arfaethedig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Nod y cynnydd arfaethedig yw lleihau nifer yr eiddo gwag ac ail gartrefi, nid cynhyrchu incwm.

Manylodd Pennaeth Cyllid ac Archwilio ar amserlenni tynn y broses i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus, adrodd yn ôl i'r Cabinet ac yna cyflwyno cynnig gerbron

y Cyngor Llawn a gwneud y penderfyniad terfynol. O ystyried yr amserlen gofynnir i'r Cabinet hefyd gymeradwyo gweithredu'r penderfyniad ar unwaith. Y penderfyniad ar y cam hwn yw ymgynghori ynghylch y cynigion a bod unrhyw benderfyniad sylweddol yn destun adroddiad arall.

Roedd y Cabinet yn croesawu'r cynigion yn yr adroddiad fel ffordd i ddefnyddio eiddo gwag, cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy ar gyfer pobl sydd angen tai a galluogi pobl leol i aros yn eu cymunedau. Mae'r dull graddol i gynyddu'r premiwm hefyd yn derbyn croeso, a bod digon o rybudd yn cael ei roi o'r cynigion er mwyn rhoi digon o amser i berchnogion ystyried eu sefyllfa. Cyfeiriwyd at y cydweithio rhwng y llywodraeth a Phlaid Cymru, a'r ymrwymiad i fynd i'r afael a materion fel prinder tai a diffyg tai fforddiadwy i bobl leol. Cadarnhaodd y swyddogion fod diffyg eglurder ynghylch bwriad awdurdodau lleol cyfagos wrth ddefnyddio'r hyblygrwydd newydd yma.

Gwnaeth ddau aelod etholedig (nad ydyn yn aelodau o'r Cabinet) sylwadau a gofyn cwestiynau am yr effaith niweidiol bosib' ar dwristiaeth, busnesau bach a'r economi leol o ganlyniad i godi cyfraddau uwch ynghyd â'r incwm posib'.

Ymatebodd y Cabinet a'r swyddogion i'r materion a godwyd fel a ganlyn –

- Nod y cynnydd arfaethedig yn y cyfraddau yw newid ymddygiad ac annog perchnogion i ddefnyddio eu heiddo – nid cynhyrchu incwm
- Mae'r cynigion yn darparu dull graddol a phwyllog i gyrraedd uchafswm o 150%, sy'n llai na'r uchafswm o 300% a ganiateir
- Mae angen cydbwysedd rhwng yr effaith ar dwristiaeth a'r ddarpariaeth dai, gyda'r angen am dai a digartrefedd yn prif flaenoriaethau
- Byddai unrhyw eiddo sy'n fusnes yn destun cyfraddau busnes ac felly ni fydd yn rhaid iddynt dalu treth y cyngor
- Amlygwyd yr anawsterau wrth amcangyfrif unrhyw refeniw ychwanegol, yn enwedig o ystyried mai lleihau ail gartrefi yw'r rheswm dros wneud y cynnydd – na fyddai'n cynhyrchu unrhyw refeniw ychwanegol os yw'n llwyddiannus
- Byddai unrhyw refeniw ychwanegol yn sgil y cynnydd yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r materion tai, yn cynnwys digartrefedd a phrinder tai
- Byddai Asesiad o'r Effaith ar Les yn cael ei ddarparu fel rhan o'r broses o wneud penderfyniad ar y cynigion, drwy adroddiadau i'r Cabinet ym mis Gorffennaf ac yna i'r Cyngor ym mis Medi
- Rhoddwyd sicrwydd ynghylch bod trefniadau diogelu yn eu lle fel rhan o'r broses i helpu pobl sy'n wynebu caledi ariannol

Ar ôl adolygu'r adroddiad a'r wybodaeth ategol –

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a)* *Cytuno bod y premiymau ail gartrefi safonol, ac eiddo gwag yn yr hirdymor yr un fath, i leihau nifer yr achosion o drethdalwyr yn osgoi talu (a fyddai efallai'n gwneud cais i symud i'r categori mwyaf ffafriol) ac i sicrhau nad yw'r baich gweinyddol yn cynyddu'n sylweddol, ac eithrio ar gyfer eiddo sy'n gorwedd o fewn yr argymhelliad;*

(b) *Cytuno â'r cynigion canlynol a fydd yn hysbysu ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r Cabinet a'r Cyngor wneud eu penderfyniadau terfynol:*

- *Bod y Premiwm a godir ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor yn aros ar 50% o Ebrill 2023 ac yna'n cynyddu i 100% o Ebrill 2024 ac i 150% o Ebrill 2025*
- *Bod eiddo sydd wedi bod yn wag a heb ddodrefn ers 5 mlynedd neu fwy yn talu premiwm o 50% yn fwy na'r Premiwm safonol*

*(c)* Cytuno bod y penderfyniad yn cael ei weithredu ar unwaith yn unol â pharagraff 7.25 Cyfansoddiad y Cyngor oherwydd bod angen cwblhau'r ymgynghoriad angenrheidiol mewn modd amserol.

**8 POLISI GWEITHIO'N HYBLYG DRAFFT**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julie Matthews yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i'r Polisi Gweithio'n Hyblyg newydd a'r dogfennau canllaw cysylltiedig.

Mae'r Polisi Gweithio'n Hyblyg presennol wedi'i adolygu yn dilyn y ffyrdd newydd o weithio y mae'r Cyngor wedi'u datblygu yn ystod ac ar ôl pandemig COVID-19. Mae'r Polisi Gweithio'n Hyblyg newydd yn galluogi gweithwyr i gael mwy o ddewis o ran sut, ble a phryd maent yn gweithio ac yn darparu canllawiau clir a dull cyson ar gyfer rheoli gweithwyr mewn ffordd hyblyg. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Les hefyd yn amlygu manteision y polisi hwn. Aeth Pennaeth Dros Dro Adnoddau Dynol drwy'r adroddiad a'r dogfennau cysylltiedig efo'r aelodau.

Croesawodd y Cabinet yr adroddiad cynhwysfawr a manteision y polisi, a oedd yn cynnwys mwy o ddewis i weithwyr, gwella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, defnyddio llai ar gerbydau, a'r gallu i weithio'n hyblyg yn dod yn ddewis pwysig mewn gyrfa ac yn helpu i fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw staff.

Atebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion y cwestiynau fel a ganlyn –

- Mae'r polisi drafft wedi'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Iechyd a Diogelwch a Chysylltiadau Gweithwyr, ac mae'r holl undebau wedi cytuno arno
- O ran gweithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain, mae yna asesiadau risg yn eu lle ar gyfer rheolwyr a gweithwyr i ddiogelu unigolion tra maent yn gweithio
- Mae gweithwyr newydd yn cael eu cefnogi drwy broses gyflwyno sydd wedi'i diwygio i ystyried y dulliau gweithio newydd
- O ran monitro canlyniadau'r patrymau gweithio newydd, amlygwyd pwysigrwydd cyfarfodydd un-i-un rheolaidd rhwng rheolwyr a gweithwyr er mwyn sicrhau lles ac fel ffordd i reoli perfformiad sy'n darparu sgwrs ddwyffordd; mae llawer o bwyslais wedi'i roi ar werth cyfarfodydd un-i-un a darperir canllawiau ar sut i reoli'r sgyrsiau hynny i sicrhau'r budd mwyaf
- Eglurwyd yr anawsterau wrth ddarparu cymhariaeth rhwng canlyniadau gweithio cyn ac ar ôl COVID-19 oherwydd diffyg data cymharol a'r cymhlethdodau o ran mesur canlyniadau ar gyfer swyddi penodol

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*

*(a) Cymeradwyo'r Polisi Gweithio'n Hyblyg, a'r dogfennau canllaw ategol, ac yn*

*(b) Cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 6 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

**9 FFRAMWAITH ADEILADU GOGLEDD CYMRU (NWCF) CAM 3 - CYFNOD 1 - CYCHWYN Y PROSIECT**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julie Matthews yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i ddechrau proses gaffael Cam 3 Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru.

Yn dilyn llwyddiant Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru a'r buddion o ran amser caffael, cost a gwerth ychwanegol a ddarperir ganddo, cynigir cychwyn prosiect a fydd yn galluogi chwe awdurdod lleol y gogledd i gael fframwaith ar gyfer caffael prosiectau adeiladu rhanbarthol. Mae Cam 2 y Fframwaith Adeiladu yn dod i ben ddiwedd mis Mai 2024 ac mae angen cymeradwyaeth i ddechrau proses Cam 3 er mwyn iddo fod yn ei le erbyn mis Mehefin 2024.

Darparodd y Rheolwr Caffael Cydweithredol a Fframwaith drosolwg manwl o'r fframwaith a'r manteision, a'r bwriad i fwrw ymlaen â thrydydd cam ar ran chwe awdurdod lleol y gogledd sy'n cyfrannu'n gyfartal at adnoddau'r fframwaith. Rhagwelir mai gwerth y fframwaith fydd £600 miliwn o wariant cyhoeddus yn ystod oes y trydydd cam ar draws y gogledd, a bydd pob corff cyhoeddus yn gallu cael mynediad ato. Mewn ymateb i gwestiynau cadarnhawyd bod Sir Ddinbych wedi cynnal dau gam blaenorol y fframwaith ar ran y rhanbarth, sy'n dangos hyder yn y gwaith.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*

*(a) Cymeradwyo cychwyn y prosiect i gaffael Cam 3 Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru, ac yn*

*(b) Cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

**10 LLYWODRAETHU ARIAN CRONFA FFYNIANT BRO**

Cyflwynodd y Cynghorydd Jason McLellan yr adroddiad ar y trefniadau llywodraethu ar gyfer goruchwylio'r prosiectau a ariennir drwy'r Gronfa Ffyniant Bro, a chyfeiriodd at y swm anhygoel o waith sydd wedi'i wneud ers cais llwyddiannus Gorllewin Clwyd, yn cynnwys trafodaethau gyda budd-ddeiliaid ynglŷn â chyflawni'r prosiectau.

Eglurodd y Rheolwr Rhaglen beth yw'r gofyniad ar y Cyngor, fel corff cyflawni ar gyfer prosiect Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd – sef sefydlu bwrdd cyflawni cyfansoddiadol gyda'r Gronfa Ffyniant Bro wedi'i gynnwys yn ei gylch gorchwyl. Darparodd drosolwg cynhwysfawr o'r ddogfen lywodraethu, yn cynnwys y

mecanweithiau arolygu a sicrwydd sydd yn eu lle a sut maent wedi'u cynnwys yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae cylch gwaith y ddogfen lywodraethu hefyd yn cynnwys darpariaeth Ffyniant Bro mewn partneriaeth â Wrecsam ar gyfer ardal de Clwyd, a hefyd mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad ac roedd yn fodlon ar y strwythur llywodraethu cadarn sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen er mwyn cyflawni'r prosiectau yn llwyddiannus. Pwysleisiodd y Cynghorydd Emrys Wynne bwysigrwydd cael trefniadau llywodraethu cywir ar waith ac roedd yn edrych ymlaen at weld y prosiectau yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus yn Rhuthun. Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod yn edrych ymlaen at weithio ar y Bwrdd Prosiect a gyda budd-ddeiliaid i gyflawni prosiectau er budd y trigolion.

***PENDERFYNWYD*** *Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen a deall y trefniadau llywodraethu a sicrwydd a ddisgrifir a'i fod yn fodlon bod y trefniadau hynny wedi'u hintegreiddio'n ddigonol i fusnes y Cyngor.*

**11 ADRODDIAD ARIANNOL (SEFYLLFA ARIANNOL DERFYNOL 2022/23)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad ar sefyllfa refeniw derfynol 2022/23 a'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau. Bydd y Datganiad Cyfrifon Blynyddol drafft ar gyfer 2022/23 yn cael ei gyflwyno i'r archwilwyr allanol cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yr Aelodau drwy'r adroddiad. Yn fras, mae'r sefyllfa derfynol o ran cyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol (yn cynnwys gorwariant ysgolion o £3.509 miliwn) yn orwariant o £5.095 miliwn neu'n orwariant o £1.585 miliwn heb ysgolion. Gyda diffyg bychan o £0.019 miliwn wrth gasglu Treth y Cyngor, mae gwerth £1.604 miliwn o gronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi wedi'u defnyddio i ariannu'r gorwariant net, gan adael balans o oddeutu £5.5 miliwn. Mae sefyllfa balansau ysgolion yn well na'r disgwyl ac mae £3.5 miliwn o arian wrth gefn (gan adael balans o £9 miliwn) wedi'i ddefnyddio i fynd i'r afael â'r gorwariant. Yn olaf, mae'r driniaeth arfaethedig ar gyfer y cronfeydd wrth gefn a'r balansau wedi'i nodi yn llawn. Mae'r rhan fwyaf o'r symudiadau wedi'u cyllidebu neu wedi'u cymeradwyo eisoes.

Ategodd y Cynghorodd Gill German, er bod cyllidebau ysgolion yn edrych yn weddol iach, fod hyn yn bennaf oherwydd cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig. Soniodd am yr effaith ar iechyd meddwl a lles, a bod angen mynd i'r afael â materion fel presenoldeb, cymdeithasu ac iaith a llefaredd mewn modd amserol. Amlygwyd yr heriau a'r risgiau ariannol ehangach, yn cynnwys pwysau chwyddiant a strategaeth ariannol Llywodraethu y DU wrth ddelio gydag effaith ariannol COVID-19 a'r argyfwng costau byw. Dywedodd y Cynghorydd German fod yr anawsterau wedi bod yn ganlyniad uniongyrchol penderfyniadau gwleidyddol Llywodraeth y DU a phwysleisiodd bwysigrwydd cydweithio er mwyn ymateb i'r sefyllfa yn y ffordd orau.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

(a) *Nodi’r sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2022/23;*

(b) *Cymeradwyo'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau fel y manylir yn yr adroddiad ac yn Atodiadau 1 a 2, ac yn*

(c) *Nodi manylion y trosglwyddiadau i’r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ac allan ohonynt fel y nodwyd yn Atodiad 3.*

**12 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL Y CABINET**

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i’r dyfodol y Cabinet i’w hystyried.

Nododd yr Aelodau fod achos busnes Felodrom Gogledd Cymru wedi’i dynnu oddi ar raglen mis Mehefin ond y bydd yn cael ei ailosod ar y rhaglen waith ar ôl derbyn cadarnhad ynghylch amserlen y prosiect.

***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm.